# Datganiad Polisi Trwyddedu
# Cyngor Sir Penfro

**Ionawr 2019**

# Deddf Gamblo 2005

**Gellir cael rhagor o wybodaeth gan:**
**Yr Adran Drwyddedu**
**Is-adran Diogelu'r Cyhoedd**
**Neuadd y Sir**
**Hwlffordd**
**Sir Benfro**
**SA61 1TP**

**Ffôn: 01437 764551**
**E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk**
**Gwefan: www.pembrokeshire.gov.uk**

**Mae'r polisi hwn hefyd ar gael yn Saesneg neu mewn print bras drwy wneud cais i'r Adran Drwyddedu.**

# DATGANIAD POLISI GAMBLO
# Deddf Gamblo 2005

## Cynnwys


| **Rhif yr Adran** | **Eitem** | **Tudalen** |
|---|---|---|
| | | |
| **Rhan A** | **Datganiad Polisi Gamblo** | 2 |
| | | |
| 1 | Yr amcanion trwyddedu | 2 |
| 2 | Cyflwyniad | 2 |
| 3 | Datganiad | 4 |
| 4 | Awdurdodau Cyfrifol | 5 |
| 5 | Partïon â diddordeb | 6 |
| 6 | Cyfnewid gwybodaeth | 7 |
| 7 | Gorfodi | 7 |
| 8 | Swyddogaethau Awdurdodau Trwyddedu | 8 |
| | | |
| **Rhan B** | **Trwyddedau Safleoedd** | 9 |
| | | |
| 9 | Egwyddorion Cyffredinol | 9 |
| 10 | Canolfannau Hapchwarae i Oedolion | 17 |
| 11 | Canolfannau Adloniant i'r Teulu (Trwyddedig) | 18 |
| 12 | Casinos | 18 |
| 13 | Bingo | 19 |
| 14 | Safleoedd betio | 19 |
| 15 | Traciau | 20 |
| 16 | Ffeiriau Teithiol | 22 |
| 17 | Datganiadau Dros Dro | 22 |
| 18 | Adolygiadau | 23 |
| 19 | Asesiadau Risg | 24 |
| | | |
| **Rhan C** | **Trwyddedau/Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol** | 26 |
| | | |
| 20 | Trwyddedau ar gyfer gemau hapchwarae mewn Canolfannau Adloniant i'r Teulu Heb Drwydded | 26 |
| 21 | Trwyddedau ar gyfer peiriannau hapchwarae ar Safleoedd Trwyddedig (Alcohol) | 27 |
| 22 | Trwyddedau ar gyfer Hapchwarae â Gwobrau | 28 |
| 23 | Trwyddedau ar gyfer Hapchwarae mewn Clybiau a Pheiriannau mewn Clybiau | 29 |
| 24 | Hysbysiadau Defnydd Dros Dro | 30 |
| 25 | Hysbysiadau Defnydd Achlysurol | 30 |
| 26 | Loterïau Cymdeithasau Bach | 31 |
| | | |
| **Atodiad** | | |
| | | |
| Atodiad A | Dirprwyo Swyddogaethau | 32 |
| Atodiad B | Manylion Cyswllt | 34 |
| Atodiad C | Map o Sir Benfro | 36 |

# RHAN A
# Datganiad Polisi Gamblo

## 1. Yr Amcanion Trwyddedu

1.1 Wrth arfer y rhan fwyaf o'u swyddogaethau o dan Ddeddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedau ystyried yr amcanion trwyddedu fel y'u nodir yn adran 1 o'r Ddeddf. Yr amcanion trwyddedu yw:

- **Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, rhag cael ei gysylltu â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;**
- **Sicrhau y caiff gweithgareddau gamblo eu cynnal mewn ffordd deg ac agored;**
- **Amddiffyn plant ac unigolion eraill agored i niwed rhag cael niwed neu gael eu hecsbloetio drwy weithgareddau gamblo.**

1.2 Dylid nodi bod y Comisiwn Gamblo wedi nodi: "The requirement in relation to children is explicitly to protect them from being harmed or exploited by gambling".

1.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol, yn unol ag Adran 153, wrth wneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau safleoedd a hysbysiadau defnydd dros dro, y dylai anelu at ganiatáu i safleoedd gael eu defnyddio at ddibenion gamblo i'r graddau y mae'n credu ei bod:

- **yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;**
- **yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;**
- **yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu**
- **yn unol â datganiad polisi Gamblo'r awdurdod.**

## 2. Cyflwyniad


2.1 Mae gan Sir Benfro boblogaeth o tua 124,700 yn 2017 ac mae'n wledig ei natur ar y cyfan. O amgylch y chwe phrif dref, sef Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Dinbych-y-pysgod, Penfro a Doc Penfro, ceir nifer fawr o bentrefi, y mae gan bob un ei gymeriad unigol ei hun.

2.2 Mae gan tua 630 o safleoedd a nodwyd yn Sir amrywiaeth o drwyddedau o dan y Ddeddf. Mae sawl safle wedi'u trwyddedu ar gyfer bingo; canolfannau adloniant i'r teulu, canolfannau hapchwarae i oedolion a safleoedd betio. Hefyd, ceir hysbysiadau defnydd achlysurol bob blwyddyn ar gyfer sawl digwyddiad, megis traciau rasio o fan i fan a gynhelir yn y Sir. Mae'r rhain yn gwneud cyfraniad hanfodol at yr economi leol, drwy dwristiaeth a datblygiad diwylliannol. Roedd 44,100 o unigolion mewn cyflogaeth yn Sir Benfro yn 2017, sy'n cyfateb i 56.9% o boblogaeth y sir. Mae hyn yn cymharu â 62% yng Nghymru a 64% ym Mhrydain Fawr. Mae gan Sir Benfro grynodiadau sylweddol o gyflogaeth yn y sectorau canlynol: llety a bwyd a gwasanaethau bwyd; y celfyddydau, adloniant a hamdden; adeiladu; a diwydiannau echdynnol. Atodir cynllun o'r sir sy'n dangos wardiau unigol fel Atodiad C.

2.3 Mae'r diwydiant twristiaeth yn cael cryn effaith ar y boblogaeth ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae 6,700 o unigolion yn cael eu cyflogi yn y sector twristiaeth ac mewn

galwedigaethau gwasanaethu, gyda niferoedd sylweddol yn gweithio mewn llety a gwersylloedd, atyniadau twristiaeth, bwytai a chaffis, clybiau, tafarndai a bariau.

**Ffigur 1: Ardal Cyngor Sir Penfro**




2.4 Ar hyn o bryd mae 20 o Safleoedd Gamblo yn y Sir, sy'n cynnwys 14 o Safleoedd Betio, 3 Safle Bingo, 2 Ganolfan Hapchwarae i Oedolion, 1 Ganolfan Adloniant i'r Teulu a Thrwydded Fetio Dim Trac.

2.5 O dan Ddeddf Gamblo 2005 mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedau gyhoeddi datganiad o'r egwyddorion y maent yn bwriadu eu cymhwyso wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'n rhaid cyhoeddi'r datganiad hwn o leiaf bob tair blynedd. Mae'n rhaid adolygu'r datganiad yn rheolaidd hefyd ac ail-ymgynghori ynghylch unrhyw rannau diwygiedig. Wedyn, mae'n rhaid ailgyhoeddi'r datganiad. Y ddogfen hon yw datganiad egwyddorion Cyngor Sir Penfro yn unol â'r Ddeddf.

2.6 Lluniwyd y polisi hwn o ganlyniad i gydweithredu rhwng y pedair Sir yn ardal Heddlu Dyfed Powys, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys (Fforwm Trwyddedu'r Pedair Sir) a gan ddilyn cyngor a chanllawiau a roddwyd gan gynrychiolwyr y Comisiwn Gamblo. Y nod oedd llunio polisi cyson ar draws ar ardaloedd a oedd yn cael eu cynrychioli.

2.7 Mae'r polisi hwn wedi'i lunio o ganlyniad i ymgynghoriad a oedd yn cynnwys y canlynol (ond nad oedd yn gyfyngedig iddynt):-

a) Yr Heddlu
b) Y Comisiwn Gamblo
c) Awdurdodau Cyfrifol Eraill
d) Deiliaid Trwyddedau a'u cynrychiolwyr
e) Busnesau Gamblo lleol a'u cynrychiolwyr
f) Trigolion lleol a'u cynrychiolwyr

Mae ystyriaeth ddyladwy wedi'i rhoi i bawb sydd wedi ymateb.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Awst 2018 a mis Medi 2018 ac, i'r graddau yr oedd hynny'n ymarferol, dilynodd y Cyngor yr Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Cymeradwyodd y Cyngor y polisi ar 3 Rhagfyr 2018 ac fe'i cyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2019. Mae hefyd ar gael yn www.pembrokeshire.gov.uk

2.8 Dylid nodi na fydd y datganiad polisi hwn yn drech na hawl unrhyw berson i wneud cais, cyflwyno sylwadau ynghylch cais neu wneud cais am adolygiad o drwydded, am y caiff pob un ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ac yn unol â gofynion statudol Deddf Gamblo 2005.

2.9 Nodir bod angen i ymgeiswyr am drwyddedau safleoedd gael trwyddedau gweithredu gan y Comisiwn Gamblo ac y bydd ganddynt gyfrifoldebau i'r Comisiwn o ganlyniad i hynny.

## 3. Datganiad

3.1 Wrth lunio'r ddogfen bolisi hon, mae Cyngor Sir Penfro yn datgan ei fod wedi ystyried amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005 a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo.

### 3.2 Rhestr Termau

Yn y Datganiad Polisi hwn, diffinnir y geiriau a'r termau canlynol fel y nodir:

| | |
|---|---|
| Amcanion Trwyddedu: | Fel y'u diffinnir yn adran 1.1 uchod |
| Cyngor: | Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) |
| Sir | Ardal Sir Benfro a weinyddir gan Gyngor Sir Penfro ac y cyfeirir ati ar y map atodedig (gweler Atodiad C) |
| Trwyddedau: | Fel y'u diffinnir yn Rhan B |
| Ceisiadau: | Ceisiadau am drwyddedau fel y'u diffinnir yn Rhannau B ac C |
| Awdurdod Trwyddedu | Awdurdod Trwyddedu o fewn ystyr Adran 2 o Ddeddf Gamblo 2005 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “yr Awdurdod”) |

| | |
|---|---|
| Hysbysiadau: | sef Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol |
| Deddf: | Deddf Gamblo 2005 |
| Rheoliadau: | Rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Gamblo 2005 |
| Safle: | Unrhyw le |
| Cod Ymarfer: | sef unrhyw god ymarfer perthnasol o dan adran 24 o Ddeddf Gamblo 2005 |
| Amod Gorfodol: | sef amod penodol a ddarperir gan reoliadau i'w osod ar drwydded |
| Amod Diofyn: | sef amod penodol a ddarperir gan reoliadau i'w osod ar drwydded, oni chaiff ei eithrio gan Gyngor Sir Penfro |

## 4. Awdurdodau Cyfrifol

Mae'r canlynol yn awdurdodau cyfrifol mewn perthynas â thrwyddedau safleoedd o dan y Ddeddf :-

1. Yr Awdurdod Trwyddedu y mae'r safleoedd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ei ardal ("Cyngor Sir Penfro");
2. Y Comisiwn Gamblo;
3. Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys;
4. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru;
5. Pennaeth Cynllunio, Cyngor Sir Penfro neu Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
6. Amddiffyn y Cyhoedd, Cyngor Sir Penfro;
7. Y Tîm Diogelu, Cyngor Sir Penfro;
8. Cyllid a Thollau EM
9. Mewn perthynas â chwch neu long, awdurdod mordwyo, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain a'r Ysgrifennydd Gwladol;
10. Unrhyw berson arall a ragnodir mewn rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

4.1 Mae rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth arfer ei bwerau o dan Adran 157(h) o'r Ddeddf i ddynodi, yn ysgrifenedig, gorff sy'n gymwys i roi cyngor i'r awdurdod ar sut i amddiffyn plant rhag niwed.

4.2 Yr egwyddorion yw:

a) yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cwmpasu ardal gyfan yr Awdurdod Trwyddedu;
b) yr angen i'r corff fod yn atebol i unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd, yn hytrach nag unrhyw grŵp buddiant breintiedig penodol.

4.3 Am y rhesymau hyn, mae'r awdurdod hwn yn dynodi'r Tîm Diogelu, Cyngor Sir Penfro, at y diben hwn.

4.4 Ceir manylion cyswllt yr holl Awdurdodau Cyfrifol o dan Ddeddf Gamblo 2005 yn Atodiad B i'r ddogfen Bolisi ac maent hefyd ar gael ar wefan y Cyngor yn: **www.pembrokeshire.gov.uk**

## 5. Partïon â diddordeb

5.1 Gall partïon â diddordeb gyflwyno sylwadau ar geisiadau am drwyddedau neu wneud cais am adolygiad o drwydded bresennol. Diffinnir y partïon hyn yn Neddf Gamblo 2005 fel a ganlyn:

"For the purposes of this Part a person is an interested party in relation to an application for or in respect of a premises licence if, in the opinion of the Licensing Authority which issues the licence or to which the applications is made, the person:
a) lives sufficiently close to the premises to be likely to be affected by the authorised activities,
b) has business interests that might be affected by the authorised activities, or
c) represents persons who satisfy paragraph (a) or (b)".

5.2 Mae rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf Gamblo 2005 er mwyn penderfynu a yw person yn barti â diddordeb. Yr egwyddorion yw:

- Penderfynir ar bob achos yn ôl ei deilyngdod. Ni fydd yr awdurdod hwn yn cymhwyso rheol gaeth wrth wneud penderfyniadau. Bydd yn ystyried yr enghreifftiau o ystyriaethau a roddir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol yn 8.9 ac 8.17. Bydd hefyd yn ystyried Canllawiau'r Comisiwn Gamblo y dylid dehongli "has business interests" yn y ffordd ehangaf bosibl ac y dylai gynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd a phractisau meddygol.

- Gall partïon â diddordeb fod yn unigolion sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd megis cynghorwyr ac ASau. Ni fydd angen unrhyw dystiolaeth benodol bod cynghorydd / AS wedi cael cais i gynrychioli person â diddordeb ar yr amod ei fod yn cynrychioli'r ward y mae'n debygol yr effeithir arni. Yn yr un modd, ystyrir bod cynghorau cymuned y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn bartïon â diddordeb. Fodd bynnag, heblaw'r rhain, bydd yr awdurdod, fel arfer, yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig bod person/corff (e.e. eiriolwr/perthynas) yn 'cynrychioli' rhywun sydd naill ai'n byw'n ddigon agos i'r safle fel ei bod yn debygol y bydd y gweithgareddau awdurdodedig yn effeithio arno a/neu sydd â buddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt Mae llythyr gan un o'r personau hyn, yn gofyn am y gynrychiolaeth, yn ddigonol.

- Os bydd unigolion am gysylltu â chynghorwyr er mwyn gofyn iddynt gynrychioli eu barn, dylid sicrhau nad yw'r cynghorwyr yn rhan o'r Pwyllgor Trwyddedu sy'n ymdrin â'r cais am drwydded. Os oes gennych unrhyw amheuon cysylltwch â'r Adran Drwyddedu.

5.3 Dylai unrhyw Gynghorwyr Cymuned neu Sir y gofynnir iddynt gynrychioli pobl â diddordeb sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer a cheisio goddefeb gan y Pwyllgor Safonau os bydd hynny'n briodol.

## 6. Cyfnewid Gwybodaeth

6.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu gynnwys yn eu datganiadau yr egwyddorion i'w cymhwyso gan yr awdurdod wrth arfer y swyddogaethau o dan adrannau 29 a 30 o'r Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Gamblo, a'r swyddogaethau o dan adran 350 o'r Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r personau eraill a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf.

6.2 Yr egwyddor y bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ei gymhwyso yw y bydd yn gweithredu yn unol â darpariaethau Deddf Gamblo 2005 wrth iddo gyfnewid gwybodaeth sy'n cynnwys y ddarpariaeth na chaiff y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 na Deddf Diogelu Data 2018 eu torri. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol ar y mater hwn pan gaiff ei gyhoeddi, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau a roddir yn Neddf Gamblo 2005.

6.3 Os sefydlir unrhyw brotocolau o ran cyfnewid gwybodaeth â chyrff eraill yna sicrheir eu bod ar gael.

## 7. Gorfodi

7.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu, yn ôl y rheoliad o dan Ddeddf Gamblo 2005, nodi'r egwyddorion i'w cymhwyso gan yr awdurdod wrth arfer y swyddogaethau o dan Ran 15 o'r Ddeddf mewn perthynas ag arolygu safleoedd; a'r pwerau o dan adran 346 o'r Ddeddf i gychwyn achos troseddol mewn perthynas â'r troseddau a nodwyd.

7.2 Egwyddorion yr Awdurdod Trwyddedig hwn yw y caiff ei arwain gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol, ac y bydd yn ymdrechu i fod:

- Yn gymesur: dim ond pan fydd angen y dylai rheoleiddwyr ymyrryd: dylai rhwymedïau fod yn briodol i'r risg a berir, a dylai costau gael eu nodi a'u lleihau;
- Yn atebol: rhaid i reoleiddwyr allu cyfiawnhau penderfyniadau, a dylai'r cyhoedd allu craffu arnynt;
- Yn gyson: rhaid i reolau a safonau fod yn gydgysylltiedig ac wedi eu rhoi ar waith yn deg;
- Yn dryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored, a chadw rheoliadau'n syml ac yn hawdd eu defnyddio; a
- Yn benodol: dylai rheoliadau ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau unrhyw sgîl-effeithiau.

7.3 Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymdrechu, hyd y gellir, i osgoi dyblygu â systemau rheoliadol eraill.

7.4 Y brif rôl gorfodi a chydymffurfio ar gyfer yr Awdurdod Trwyddedu hwn o ran Deddf Gamblo 2005 fydd sicrhau cydymffurfiaeth â'r trwyddedau safleoedd a chaniatadau eraill, y mae'n eu hawdurdodi. Y Comisiwn Gamblo fydd y corff gorfodi ar gyfer y trwyddedau gweithredu a phersonol. Mae'n werth nodi hefyd nad yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn

ymdrin â phryderon am weithgynhyrchu, cyflenwi nac atgyweirio peiriannau hapchwarae ond y caiff y Comisiwn Gamblo ei hysbysu amdanynt.

7.5 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn cael ei hysbysu am ddatblygiadau o ran gwaith y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio wrth iddo ystyried swyddogaethau rheoliadol awdurdodau lleol.

7.6 O gofio egwyddor tryloywder, bydd cytundebau gorfodi/ protocolau cydymffurfio/ysgrifenedig ar gael ar gais i'r Adran Drwyddedu.

## 8. Swyddogaethau Awdurdodau Trwyddedu

8.1 O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i Awdurdodau Trwyddedu:

- Fod yn gyfrifol am drwyddedu safleoedd lle disgwylir i weithgareddau gamblo gael eu cynnal drwy gyhoeddi Trwyddedau Safleoedd; ar gyfer safleoedd Bingo, safleoedd Betio, Traciau, Canolfannau Hapchwarae i Oedolion a Chanolfannau Adloniant i'r Teulu;
- Cyhoeddi Datganiadau dros Dro;
- Rheoleiddio clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr sydd am wneud gweithgareddau hapchwarae penodol, drwy gyhoeddi Trwyddedau Hapchwarae mewn Clybiau a/neu Drwyddedau Peiriannau mewn Clybiau;
- Cyhoeddi Trwyddedau Peiriannau mewn Clybiau i Glybiau Masnachol;.
- Rhoi trwyddedau i'w defnyddio ar gyfer peiriannau hapchwarae arian betio is mewn Canolfannau Adloniant i'r Teulu heb drwydded;
- Cael hysbysiadau gan safleoedd sydd wedi eu trwyddedu i werthu alcohol (o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) i ddefnyddio dau neu lai o beiriannau hapchwarae;
- Cyhoeddi Trwyddedau Peiriannau Hapchwarae ar Safleoedd Trwyddedig ar gyfer safleoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu/cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle trwyddedig, o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, pan fydd mwy na dau beiriant;
- Cofrestru loterïau cymdeithasau bach o dan drothwyon rhagnodedig;
- Cyhoeddi Trwyddedau Hapchwarae â Gwobrau;
- Derbyn a Chymeradwyo Hysbysiadau Defnydd Dros Dro;
- Derbyn Hysbysiadau Defnydd Achlysurol;
- Darparu gwybodaeth i'r Comisiwn Gamblo am fanylion trwyddedau a gyhoeddwyd (gweler yr adran uchod ar 'gyfnewid gwybodaeth');
- Cynnal cofrestrau o'r trwyddedau a gyhoeddir o dan y swyddogaethau hyn;

8.2 Dylid nodi na fydd awdurdodau trwyddedu lleol yn ymwneud â gamblo trwyddedig o bell o gwbl. Cyfrifoldeb y Comisiwn Gamblo fydd hyn drwy gyfrwng trwyddedau gweithredu.

# RHAN B
# TRWYDDEDAU SAFLEOEDD - YSTYRIED CEISIADAU

## 9. Egwyddorion Cyffredinol

9.1 Bydd trwyddedau safleoedd yn ddarostyngedig i'r gofynion a nodir yn Neddf Gamblo 2005 a'r rheoliadau, yn ogystal ag amodau gorfodol a diofyn penodol a grybwyllir yn y rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gall awdurdodau trwyddedu eithrio amodau diofyn a hefyd atodi rhai eraill, lle y credir y bydd hynny'n briodol.

9.2 Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd am Drwydded Safle nodi sut y byddant yn ystyried yr amcanion trwyddedu, fel y'u nodir yn adran 1.1 uchod, a pha fesurau y maent yn bwriadu eu defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth â hwy.

9.3 **Gwneud penderfyniadau**
Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol wrth wneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau safleoedd, y dylai anelu at ganiatáu i safleoedd gael eu defnyddio at ddibenion gamblo i'r graddau y mae'n credu ei bod:

- yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo ;
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu; ac
- yn unol â datganiad polisi trwyddedu'r awdurdod.

9.4 Gwerthfawrogir, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol "moral objections to gambling are not a valid reason to reject applications for premises licences" a hefyd nad yw galw heb ei fodloni yn faen prawf ar gyfer Awdurdod Trwyddedu.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn nodi canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar sicrhau mai prif weithgaredd safle trwyddedig yw betio. Gall peiriannau hapchwarae fod ar gael i'w defnyddio ar safleoedd betio trwyddedig ond dim ond ar adegau pan fydd digon o gyfleusterau ar gael ar gyfer betio. Bydd angen i weithredwyr ddangos mai betio fydd prif weithgaredd y safle o hyd wrth geisio amrywiadau i drwyddedau.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried chwe dangosydd betio fel prif weithgaredd gamblo.

- Cynnig cynhyrchion craidd sefydledig (gan gynnwys lluniau digwyddiadau byw ac ystod o fetiau)
- Darparu gwybodaeth am gynhyrchion a digwyddiadau
- Hyrwyddo cyfleoedd a chynhyrchion gamblo
- Y defnydd gwirioneddol a wneir o'r cyfleusterau betio
- Maint y safle
- Y broses o ddarparu cyfleusterau betio

9.5 **Diffiniad o "premises"** - Yn y Ddeddf, diffinnir "premises" fel man sy'n cynnwys "any place". Mae Adran 152 felly yn atal sefyllfa lle byddai mwy nag un drwydded safle yn gymwys i unrhyw le. Ond gallai adeilad unigol fod yn destun mwy nag un drwydded safle, ar yr amod eu bod ar gyfer rhannau gwahanol o'r adeilad ac y gall y rhannau gwahanol o'r adeilad gael eu hystyried yn rhesymol yn safleoedd gwahanol. Mabwysiadwyd y dull gweithredu hwn er mwyn caniatáu i safleoedd unedau lluosog, mawr fel parc pleser, pier, trac neu ganolfan siopa gael trwyddedau safleoedd ar wahân, lle bo camau diogelu priodol ar waith. Fodd bynnag, bydd yn talu sylw arbennig os bydd materion ynghylch

israniadau un adeilad neu blot o dir a dylid sicrhau yr ufuddheir i amodau gorfodol sy'n ymwneud â mynediad rhwng safleoedd.

9.6 Noda'r Comisiwn Gamblo yn A7.6 o'r pumed argraffiad o'i Ganllawiau i Awdurdodau Trwyddedu: “In most cases the expectation is that a single building / plot will be the subject of an application for a licence, for example, 32 High Street. Ond, nid yw hynny'n golygu na all 32 Y Stryd Fawr fod yn destun trwyddedau safleoedd ar wahân ar gyfer yr islawr a'r llawr gwaelod, os ydynt wedi'u cyflunio mewn modd derbyniol. Bydd p'un a all rhannau gwahanol o adeilad gael eu hystyried yn gywir yn safleoedd ar wahân yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd lleoliad y safle yn amlwg yn ystyriaeth bwysig a bydd addasrwydd yr isranid yn debygol o fod yn fater i'w drafod rhwng y gweithredwr a'r Awdurdod Trwyddedu. A7.7 Nid yw'r Comisiwn yn credu y gall ardaloedd o adeilad sydd wedi'u gwahanu'n artiffisial neu dros dro, er enghraifft, gan raffau neu raniadau y gellir eu symud, gael eu hystyried yn gywir yn safleoedd gwahanol. Os lleolir safle o fewn lleoliad ehangach, dylai Awdurdod Trwyddedu ofyn am gynllun o'r lleoliad lle y dylai'r safle gael ei nodi arno fel "uned ar wahân".

9.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn talu sylw arbennig i Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu sy'n nodi: dylai awdurdodau trwyddedu gymryd gofal arbennig wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau lluosog ar gyfer adeilad a'r rhai sy'n ymwneud â rhan ar wahân o adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill (nad ydynt yn ymwneud â gamblo). Yn benodol, dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Mae'r trydydd amcan trwyddedu yn ceisio amddiffyn plant rhag niwed drwy gamblo. Yn ymarferol mae hynny'n golygu nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo, ond eu hatal hefyd rhag dod i gysylltiad agos â gamblo. Felly dylai safleoedd gael eu cyflunio fel na chaiff plant eu gwahodd i gymryd rhan yn y gamblo, cael mynediad damweiniol iddo nac arsylwi'n ofalus arno mewn amgylchiadau lle cânt eu gwahardd rhag cymryd rhan.
- Dylai mynedfeydd ac allanfeydd mewn rhannau o adeilad a gwmpesir gan un neu fwy o drwyddedau safleoedd fod ar wahân ac yn adnabyddadwy fel nad amherir ar y broses o wahanu safleoedd gwahanol ac nad yw pobl yn "crwydro" i mewn i ardal gamblo. Yn y cyd-destun hwn dylai fod yn bosibl cael mynediad i'r safle heb fynd drwy safle trwyddedig arall neu safle heb drwydded.
- Dylai cwsmeriaid fod yn gallu cymryd rhan yn y gweithgaredd a enwir ar y drwydded safle.

9.8 Mae'r Canllawiau hefyd yn rhoi rhestr o ffactorau y dylai'r Awdurdod Trwyddedu fod yn ymwybodol ohonynt, a all gynnwys y canlynol:

- A oes gan y safle gofrestriad ar wahân ar gyfer ardrethi busnes?
- Ai'r un person neu rywun arall sy'n berchen ar y safle cyfagos?
- A ellir cael mynediad i bob un o'r safleoedd o stryd neu dramwyfa gyhoeddus?
- Ai dim ond o safle gamblo arall y gellir cael mynediad i'r safle?

Bydd yr awdurdod yn ystyried y rhain a ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

9.9 **Atgynhyrchir darpariaethau mynediad perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o safle isod:**

7.23:

**Casinos**

- Rhaid i'r prif fynediad i'r safle fod o stryd (fel y'i diffinnir yn 7.21 yn y Canllawiau)
- Ni all neb gael mynediad i gasino o safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc
- Ni all cwsmer fynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o unrhyw safle arall sydd â thrwydded safle gamblo.

**Canolfan Hapchwarae i Oedolion**

- Ni all cwsmer gael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o unrhyw safle gamblo trwyddedig arall

**Siopau Betio**

- Rhaid cael mynediad i'r safle o stryd (yn unol â pharagraff 7.20 o'r Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu) neu o safle arall â thrwydded safle betio.
- Dim mynediad uniongyrchol o siop betio i safle arall a ddefnyddir ar gyfer manwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mewn gwirionedd, ni ellir cael mynediad i siop betio o siop o unrhyw fath oni fydd y siop honno ei hun yn safle betio trwyddedig.

**Traciau**

- Ni ddylai cwsmer fod yn gallu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:
  - gasino
  - canolfan hapchwarae i oedolion

**Safle Bingo**

- Ni all cwsmer gael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:
  - gasino
  - canolfan hapchwarae i oedolion
  - safle betio, heblaw am drac

**Canolfan Adloniant i'r Teulu**

- Ni all cwsmer gael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:
  - gasino
  - canolfan hapchwarae i oedolion
  - safle betio, heblaw am drac

Mae Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu yn cynnwys canllawiau pellach ar y mater hwn, y bydd yr awdurdod hwn hefyd yn eu hystyried wrth wneud ei benderfyniadau.

9.10 **Safle "yn barod ar gyfer gamblo"**

Noda'r Canllawiau mai dim ond mewn perthynas â safle y gall yr Awdurdod Trwyddedu fod yn fodlon ei fod yn mynd i fod yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer gamblo yn y dyfodol rhesymol agos y dylid rhoi trwydded i ddefnyddio safle ar gyfer gamblo, yn gyson â maint yr adeilad neu'r addasiadau sydd angen eu gwneud cyn i'r safle ddechrau cael ei ddefnyddio.

9.11 Os nad yw'r gwaith o adeiladu safle wedi ei gwblhau eto, neu os oes angen ei addasu, neu os nad oes gan yr ymgeisydd hawl eto i'w feddiannu, yna dylid gwneud cais am ddatganiad dros dro yn lle hynny.

9.12 Wrth benderfynu p'un a ellir rhoi trwydded safle os nad yw'r gwaith adeiladu neu addasu ar safle wedi ei gwblhau, bydd yr awdurdod hwn yn penderfynu ar geisiadau yn ôl eu teilyngdod eu hunain, gan ddefnyddio proses ystyried dau gam:-

- Yn gyntaf, p'un a ddylid caniatáu i'r safle gael ei ddefnyddio ar gyfer gamblo
- Yn ail, p'un a ellir rhoi amodau priodol ar waith i ddarparu ar gyfer y sefyllfa lle nad yw'r safle eto yn y cyflwr y dylai fod cyn i'r gamblo ddechrau.

9.13 Dylai ymgeiswyr nodi bod gan yr awdurdod hwn yr hawl i benderfynu a yw'n briodol rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amodau, ond nad yw'n gorfod rhoi trwydded o'r fath.

9.14 Ceir enghreifftiau manylach am yr amgylchiadau lle y gellir rhoi trwydded o'r fath ym mharagraffau 7.58-7.65 o'r Canllawiau.

9.15 **Lleoliad** - Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol na ellir ystyried materion am alw o ran lleoliad safle ond y gellir ystyried materion o ran yr amcanion trwyddedu. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol, bydd yr awdurdod hwn yn talu sylw arbennig i amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed rhag cael niwed neu gael eu hecsbloetio drwy weithgareddau gamblo, yn ogystal â materion trosedd ac anhrefn. Nid yw hyn yn atal unrhyw geisiadau rhag cael eu gwneud a phenderfynir ar bob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun.

9.16 Wrth benderfynu ar gais i roi Trwydded Safle neu adolygu Trwydded Safle, rhoddir ystyriaeth i agosrwydd y safle at ysgolion, canolfannau ieuenctid, canolfannau i oedolion sy'n agored i niwed neu ardaloedd preswyl lle mae cyswllt tystiolaethol rhwng agosrwydd safleoedd o'r fath a'r safleoedd gamblo. Bydd agosrwydd y safle a ystyrir yn amrywio, yn dibynnu ar faint a chwmpas y safle gamblo dan sylw. Fodd bynnag, penderfynir ar bob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o gamblo y bwriedir ei gynnig ar y safle. Felly, os gall Ymgeisydd ddangos yn effeithiol sut y gall oresgyn pryderon ynghylch amcanion trwyddedu, caiff hyn ei ystyried.

9.17 **Dyblygu â systemau rheoliadol eraill**

Wrth benderfynu ar gais, ni fydd yr Awdurdod yn ystyried materion nad ydynt yn berthnasol o dan y Ddeddf, megis y tebygolrwydd y caiff yr ymgeisydd ganiatâd cynllunio neu ganiatâd rheoli adeiladu.

Gall yr ymgeisydd wneud cais am "ddatganiad dros dro" os nad yw'r adeilad yn gyflawn neu os nad oes ganddo hawl i'w feddiannu eto. Fodd bynnag, mae cais o'r fath yn broses benodol ac ar wahân i'r broses o roi caniatâd cynllunio neu ganiatâd rheoli adeiladu.

9.18 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ceisio osgoi unrhyw ddyblygu ag unrhyw systemau statudol/rheoleiddio eraill lle y bo'n bosibl, gan gynnwys cynllunio. Ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a yw safle yn debygol o gael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu, nac yn cydymffurfio ag unrhyw ganiatâd neu gymeradwyaeth bresennol wrth iddo ei ystyried. Fodd bynnag, bydd yn gwrando ac unrhyw bryderon am amodau na all trwyddedeion eu bodloni oherwydd cyfyngiadau cynllunio, ac yn eu hystyried yn ofalus, os bydd sefyllfa o'r fath yn codi.

9.19 Wrth ddelio â chais am drwydded safle ar gyfer adeiladau gorffenedig, bydd yr awdurdod hwn yn ystyried a yw'r adeiladau hynny wedi cydymffurfio â'r caniatâd cynllunio neu adeiladau angenrheidiol. Ni chaiff risgiau tân neu risgiau iechyd a diogelwch eu hystyried, gan fod y rhain yn faterion yr ymdrinnir â hwy o dan reoliadau rheolaeth gynllunio, adeiladau a rheoliadau perthnasol eraill ac ni chânt fod yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y drwydded safle.

9.20 **Amcanion trwyddedu** - Rhaid i drwyddedau safleoedd a roddir fod yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. O ran yr amcanion hyn, mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn wedi ystyried Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol a nodir rhai sylwadau isod.

1. **Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, rhag cael ei gysylltu â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd –**

a) Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol y bydd y Comisiwn Gamblo yn cymryd rôl flaenllaw wrth rwystro gamblo rhag dod yn ffynhonnell troseddau.

b) Fodd bynnag, mae Canllawiau'r Comisiwn Gamblo yn rhagweld y dylai awdurdodau trwyddedu dalu sylw i leoliad arfaethedig safle gamblo o ran ei amcan trwyddedu.

c) Felly, os gwyddys fod gan ardal lefelau uchel o droseddau cyfundrefnol bydd yr awdurdod hwn yn ystyried yn ofalus a yw'n addas lleoli safle gamblo yno ac a yw'n briodol pennu amodau, megis darparu goruchwylwyr wrth y drws. Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng anhrefn a niwsans a bydd yn ystyried ffactorau megis p'un a oedd angen cymorth yr heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i'r rhai a allai ei weld, er mwyn gwneud y gwahaniaeth hwnnw. Ni ellir ymdrin â materion niwsans drwy ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo.

d) Wrth baratoi ceisiadau am drwydded, cynghorir ymgeiswyr i ystyried y canlynol:-

1. Dyluniad a chynllun y safle;
2. Y lleoliad i'r graddau bod y lleoliad yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu;
3. Yr hyfforddiant a roddir i staff ar fesurau atal troseddau sy'n briodol i'r safle hwnnw;
4. Nodweddion diogelwch ffisegol a osodir ar y safle. Gall hyn gynnwys materion megis lleoliad cofnodyddion arian neu safon y system teledu cylch cyfyng a osodir;
5. Pan fydd safle yn ddarostyngedig i gyfyngiadau oedran, y gweithdrefnau sydd ar waith i gynnal gwiriadau dilysu oedran;
6. Y tebygolrwydd o unrhyw broblem o ran trais, y drefn gyhoeddus neu blismona os rhoddir y drwydded;
7. Mewn perthynas ag atal anhrefn, mae gan yr Awdurdod y gallu (o dan A169 o'r Ddeddf) i bennu amodau trwydded;
8. Ymwybyddiaeth y staff o'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian a darparu gweithdrefn glir ar gyfer rhoi gwybod i uwch-reolwyr am unrhyw weithgarwch amheus.

2. **Sicrhau y caiff gweithgareddau gamblo eu cynnal mewn ffordd deg ac agored –**

Mae'r Awdurdod Drwyddedu hwn wedi nodi bod y Comisiwn Gamblo wedi datgan na fyddai fel arfer yn disgwyl i awdurdodau trwyddedu sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn modd teg ac agored gan yr ymdrinnir â hyn drwy drwyddedau gweithredu a phersonol. Fodd bynnag, mae ganddo fwy o rôl o ran traciau, ac eglurir hyn yn fanylach yn yr adran 'traciau' isod - tudalen 20).

3. **Amddiffyn plant ac unigolion eraill agored i niwed rhag cael niwed neu gael eu hecsbloetio drwy weithgareddau gamblo –**

a) Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn wedi nodi bod Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol yn nodi bod yr amcan hwn yn golygu atal plant rhag cymryd rhan mewn gamblo. Felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried, fel yr awgrymwyd yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo, p'un a oes angen mesurau penodol ar safleoedd penodol, o ran yr amcan trwyddedu hwn. Gall mesurau priodol gynnwys goruchwylio mynedfeydd/peiriannau, gwahanu ardaloedd o fewn yr un safle, hyfforddiant staff a dyluniad a chynllun y safle.

b) Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn ymwybodol o Godau Ymarfer y Comisiwn Gamblo o ran yr amcan trwyddedu hwn, mewn perthynas â safle penodol.

c) **Plant a phobl sy'n agored i niwed**

1. Plant

Mae'r Ddeddf Gamblo a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y comisiwn yn gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer amddiffyn plant rhag niwed gamblo. Dylai deiliaid trwydded ymgyfarwyddo â'r darpariaethau hyn.

2. Pryniannau Prawf

Mae'r Awdurdod yn cefnogi safiad y Comisiwn Gamblo o hyrwyddo gweithredwyr i brofi uniondeb eu polisïau a'u gweithdrefnau dilysu oedran er mwyn atal plant rhag cael gafael ar gyfleusterau gamblo. Disgwylir i bob safle hysbysu ei Awdurdod Sylfaenol (lle mae cytundebau o'r fath ar waith gyda gweithredwyr penodol) yn ysgrifenedig o'r dull gweithredu y mae wedi ei fabwysiadu a rhannu canlyniadau profion o'r fath gyda'r Awdurdod bob blwyddyn gyda'r nod o weithio gyda'r Awdurdod i wella cadernid y gweithdrefnau sy'n atal plant rhag defnyddio cyfleusterau gamblo.

Disgwylir i'r rhai nad oes ganddynt gytundebau awdurdod sylfaenol o'r fath rannu canlyniadau pryniannau prawf gyda'r Awdurdod Trwyddedu hwn.

d) **Pobl sy'n Agored i Niwed**

1. O ran y term "pobl sy'n agored i niwed" nodir nad yw'r Comisiwn Gamblo yn ceisio cynnig diffiniad ond yn hytrach yn nodi “it will for regulatory purposes assume that this group includes people who gamble more than they want to; people who gamble beyond their means; and people who may not be able to make informed or balanced decisions about gambling due to a mental impairment, alcohol or drugs.” Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr amcan trwyddedu hwn fesul achos.

2. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i bob safle gamblo sicrhau bod gwybodaeth ar gael am y Cynllun Diogelu Camfanteisio Ariannol (FESS), o gofio'r dystiolaeth o gyswllt rhwng gamblo a cham-fanteisio ariannol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynllun oddi wrth yr Adran Drwyddedu.

e) **Hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol.**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol am geisiadau ar gyfer trwyddedau safleoedd gamblo.

f) **Canllawiau Arfer Da**

Cynghorir gweithredwyr safleoedd, awdurdodau cyfrifol a gwneuthurwyr penderfyniadau yn gryf i ystyried canllawiau arfer gorau wrth asesu effaith rhoi trwydded. Dylid cyfeirio'n benodol at yr adroddiadau canlynol:-

- Fframwaith ar gyfer Rheoli Economi'r Nos Llywodraeth Cymru

- The Relationship Between Alcohol and Gambling behaviours - Alcohol Concern Cymru (2015)
- Gamblo â'n Hiechyd - Adroddiad Blynyddol 2016/17 Prif Swyddog Meddygol Cymru

g) **Hyfforddiant**

Cynghorir gweithredwyr safleoedd i ddarparu hyfforddiant i staff sy'n cynnwys hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol, yn enwedig hyfforddiant ar bolisïau lleol ar gyfer delio â hen nodwyddau a'r risgiau o feirws a gludir yn y gwaed er mwyn amddiffyn staff. Gallai'r hyfforddiant hefyd gynnwys ymwybyddiaeth o'r mathau o gyffuriau newydd a datblygol y cyfeirir atynt fel "Sylweddau Seicoweithredol Newydd" ("Anterth Cyfreithlon" gynt) er mwyn paratoi staff yn well i ymdopi â'u defnydd ar safleoedd.

Gall gwasanaethau lleol ddarparu cyrsiau byr, penodedig am ddim i safleoedd trwyddedig a chynghorir gweithredwyr yn gryf i gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu am fanylion ynghylch sut i gael gafael ar y cyrsiau hyn.

Cynghorir gweithredwyr safleoedd yn gryf hefyd i hyrwyddo gwasanaethau cymorth lleol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau gamblo, cyffuriau ac alcohol. Mae manylion am sut i gael gafael ar y deunydd hyrwyddo perthnasol ar gael oddi wrth yr Awdurdod Trwyddedu.

h) **Diogelu**

1. Cred Cyngor Sir Penfro fod diogelu Plant a Phobl sy'n Agored i Niwed yn flaenoriaeth.

2. Mae Adran Drwyddedu Sir Benfro ar y cyd ag asiantaethau, gan gynnwys y Comisiwn Gamblo a Heddlu Dyfed Powys yn chwilio am waith mewn partneriaeth â thrwyddedeion, eu staff a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod safleoedd sy'n cynnig gweithgareddau gamblo yn gweithredu'n gyfrifol a chan ystyried plant a phobl ifanc.

3. Mae'r awdurdod yn argymell bod angen i fusnesau sy'n cynnig gweithgareddau gamblo sicrhau bod eu staff wedi cael eu hyfforddi'n ddigonol mewn perthynas â materion diogelu er mwyn ymateb yn briodol ac yn gyflym pan fydd problemau'n codi. Mae'r cyngor hwn yr un mor bwysig i weithredwyr safleoedd, sy'n cynnig peiriannau hapchwarae ochr yn ochr â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

4. Mae'r awdurdod yn awgrymu'n gryf fod ymgeiswyr am awdurdodiadau yn cynnwys gwybodaeth am eu trefniadau ar gyfer rhoi hyfforddiant diogelu i staff fel rhan o'r dogfennau gwneud cais.

5. Cynghorir busnesau gamblo i gysylltu â'r Adran Drwyddedu neu ymweld â thudalennau gwe gamblo'r Awdurdod i gael copïau o'r dogfennau.

**I) Betwatch**

Mae'r Awdurdod yn annog a bydd yn cefnogi gweithredwyr lleol i greu a chynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth i drafod materion ynghylch gamblwyr problemus a nodir. Bydd cyfle hefyd i weithredwyr drafod materion â swyddogion trwyddedu.

**Amodau**

9.21 - Bydd unrhyw amodau sy'n atodedig i drwyddedau yn gymesur a byddant yn:

- berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster gamblo;

- uniongyrchol gysylltiedig â'r safle a'r math o drwydded y gwnaed cais amdani;
- teg a rhesymol gysylltiedig â maint yr adeilad a'r math o adeilad; a
- rhesymol ym mhob ffordd arall.

9.22 Gwneir penderfyniadau ynghylch amodau unigol fesul achos, er y bydd nifer o fesurau y bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried eu defnyddio os bydd angen canfyddedig, megis defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd i oedolion yn unig ac ati. Gwneir rhai sylwadau penodol yn hyn o beth o dan rai o'r mathau o drwydded isod. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn disgwyl i'r ymgeisydd am drwydded gynnig ei awgrymiadau ei hun o ran y ffyrdd y gellir bodloni'r amcanion trwyddedu yn effeithiol.

9.23 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn ystyried mesurau penodol, a all fod yn ofynnol ar gyfer adeiladau sy'n destun trwyddedau safleoedd lluosog.

9.24 Gall mesurau o'r fath gynnwys goruchwylio mynedfeydd; gwahanu ardaloedd gamblo a rhai lle na ellir gamblo y mae plant yn mynd iddynt; a goruchwylio peiriannau hapchwarae ar safleoedd sy'n benodol yn rhai nad ydynt yn cynnig cyfleuster gamblo i oedolion er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo.

9.25 Bydd yr awdurdod hwn hefyd yn sicrhau, pan fydd peiriannau categori C neu uwch ar gael ar safleoedd y gall plant gael mynediad iddynt:

- y caiff unrhyw beiriant o'r fath ei leoli mewn ardal o'r safle sydd ar wahân i weddill y safle drwy gyfrwng rhwystr ffisegol sy'n effeithiol wrth atal mynediad heblaw drwy fynedfa ddynodedig;
- mai dim ond oedolion a gaiff fynediad i'r ardal lle y lleolir y peiriannau hyn;
- bod mynediad i'r ardal lle y lleolir y peiriannau yn cael ei oruchwylio;
- bod yr ardal lle y lleolir y peiriannau hyn yn cael ei threfnu fel y gall staff neu ddeiliad y drwydded ei gweld; ac
- wrth y fynedfa i unrhyw ardal o'r fath a'r tu mewn iddi, y dangosir hysbysiadau yn amlwg sy'n nodi bod mynediad i'r ardal wedi ei wahardd i bobl dan 18 oed.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn gymwys i safleoedd gan gynnwys adeiladau lle mae trwyddedau safleoedd lluosog yn gymwys.

9.26 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol y gall traciau feddu ar fwy nag un drwydded safle, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodol o'r trac. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle ar wahân ac y caiff plant eu heithrio o ardaloedd gamblo lle na chânt fynediad iddynt.

9.27 Nodir bod amodau na all yr Awdurdod Trwyddedu eu hatodi i drwyddedau safleoedd sef:

- unrhyw amod ar y drwydded safle sy'n ei gwneud yn amhosibl i rywun gydymffurfio ag amod trwydded weithredu;
- amodau sy'n ymwneud â chategorïau peiriannau, rhifau, neu ddull gweithredu;
- amodau sy'n darparu bod angen aelodaeth o glwb neu gorff (mae Deddf Gamblo 2005 yn benodol yn dileu'r gofyniad o ran aelodaeth ar gyfer clybiau casino a bingo ac mae'r ddarpariaeth hon yn ei atal rhag cael ei adfer. ac
- amodau mewn perthynas ag arian betio, ffioedd, enillion neu wobrau.

9.28 **Goruchwylwyr Drysau** - Mae'r Comisiwn Gamblo yn ei Ganllawiau i Awdurdodau Trwyddedu yn nodi, os bydd Awdurdod Trwyddedu yn gofidio y gall safle ddenu anhrefn neu y gall plant a phobl ifanc er enghraifft geisio cael mynediad heb awdurdod iddo y gall fod yn ofynnol iddo sicrhau bod mynedfeydd i'r safle yn cael eu rheoli gan oruchwyliwr drws, a bod hawl ganddo i bennu amod trwydded safle i'r perwyl hwn.

Lle y penderfynir bod goruchwylio mynedfeydd/peiriannau yn briodol ar gyfer achosion penodol, bydd angen ystyried p'un a oes angen i'r rhain gael trwydded sefydliad SIA neu na fydd hynny'n angenrheidiol. Ni thybir yn awtomatig bod angen iddynt gael eu trwyddedu, gan fod y gofyniad statudol ar gyfer mathau gwahanol o safleoedd yn amrywio (yn unol â'r Canllawiau, Rhan 33).

9.29 Fodd bynnag, pan fydd ymgeisydd yn dewis peidio â phenodi goruchwylwyr drysau sydd wedi'u cofrestru â SIA, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i'r ymgeisydd ddisgrifio yn ei gais sut y mae'n bwriadu: -

a) Cynnal gwiriad cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob unigolyn
b) Darparu manylion eu meini prawf o ran euogfarnau troseddol
c) Egluro'r dull arfaethedig o nodi'r unigolion hyn wrth weithio fel goruchwylwyr drysau
d) Nodi'r gymhareb o weithwyr benywaidd a gwrywaidd
e) Darparu manylion am yr hyfforddiant sy'n briodol ar gyfer y rôl
f) Darparu cofrestr waith yn dangos yr amser a'r dyddiad ar ddyletswydd (mae'r un peth yn gymwys i'r rhai sydd wedi'u cofrestru â SIA).

9.30 **Systemau Teledu Cylch Cyfyng** - Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn cydnabod gwerth systemau teledu cylch cyfyng wrth atal trosedd ac anhrefn. Cynghorir ymgeiswyr i ddilyn y canllawiau sydd ar gael gan Heddlu Dyfed Powys ynghylch safonau a manylebau unrhyw system arfaethedig er mwyn sicrhau ei bod yn briodol ar gyfer y safle.

## 10. Canolfannau Hapchwarae i Oedolion

10.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yn benodol yr angen i ddiogelu plant a phobl sy'n agored i niwed rhag niwed neu rhag cael eu hecsbloetio drwy weithgareddau gamblo a bydd disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol ar waith er mwyn, er enghraifft, sicrhau na all pobl o dan 18 oed gael mynediad i'r safle.

10.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau/amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- Mabwysiadu cynllun prawf oedran megis her 21 neu 25;
- Sut yr ymdrinnir ag unrhyw risgiau i blant a phobl sy'n agored i niwed drwy weithgareddau gamblo wedi cael eu nodi mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn;
- Teledu Cylch Cyfyng;
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau;
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol;
- Lleoliad mynediad;
- Hysbysiadau/arwyddion;
- Oriau agor penodol;

- Cynlluniau hunanwahardd;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Nid yw hon yn rhestr orfodol na hollgynhwysfawr, ond yn hytrach yn nodi mesurau enghreifftiol.

## 11. Canolfannau Adloniant i'r Teulu (Trwyddedig)

11.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yn benodol yr angen i ddiogelu plant a phobl sy'n agored i niwed rhag niwed neu rhag cael eu hecsbloetio drwy weithgareddau gamblo a bydd disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol ar waith er mwyn, er enghraifft, sicrhau na all pobl o dan 18 oed gael mynediad i'r ardaloedd peiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i gyfeirio at y wybodaeth Diogelu a nodir ar dudalen 15 o'r ddogfen bolisi hon.

11.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau/amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- Teledu Cylch Cyfyng;
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau;
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol;
- Lleoliad mynediad;
- Hysbysiadau/arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunanwahardd;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare;
- Mesurau/hyfforddiant i staff ar sut i ddelio â phlant ysgol ar y safle yr amheuir eu bod yn triwanta;
- Sut yr ymdrinnir ag unrhyw risgiau i blant ac oedolion sy'n agored i niwed drwy weithgareddau gamblo wedi cael eu nodi mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn.

Nid yw hon yn rhestr orfodol na hollgynhwysfawr, ond yn hytrach yn nodi mesurau enghreifftiol.

11.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn cyfeirio at wefan y Comisiwn i weld unrhyw amodau sy'n gymwys i drwyddedau gweithredu sy'n cwmpasu'r ffordd y dylid nodi'r peiriannau categori C. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw amodau gorfodol neu ragosodedig ar y trwyddedau safleoedd hyn, pan fyddant wedi eu cyhoeddi.

## 12. Casinos

12.1 Ar hyn o bryd nid oes casinos yn y sir.

12.2 Nid oes penderfyniad wedi ei wneud i wahardd casinos yn y sir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ceidw'r Cyngor yr hawl i adolygu'r sefyllfa hon a gall, ar ryw adeg yn y dyfodol, benderfynu peidio â chaniatáu casinos.

12.3 Os bydd y Cyngor yn dewis gwneud penderfyniad o'r fath, penderfyniad y Cyngor Llawn fydd hyn yn dilyn dadl ystyriol, a rhoddir y rhesymau dros wneud y penderfyniad. Nid oes hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.

## 13. Safle bingo

13.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn nodi bod Canllawiau'r Comisiwn Gamblo yn datgan:

"18.4 Licensing authorities will need to satisfy themselves that bingo can be played in any bingo premises for which they issue a premises licence. This will be a relevant consideration where the operator of an existing bingo premises applies to vary their licence to exclude an area of the existing premises from its ambit and then applies for a new premises licence, or multiple licences, for that or those excluded areas.

13.2 Mae'r awdurdod hwn hefyd yn nodi'r Canllawiau ym mharagraff 18.8 ynghylch yr amgylchiadau anarferol lle y gellid caniatáu rhannu safle sydd eisoes yn bodoli yn ddau safle ar wahân, ac yn arbennig na chaniateir lleoli 16 o beiriannau hapchwarae categori B3 ar un o'r safleoedd canlyniadol, gan y byddid wedi mynd y tu hwnt i'r hawl o ran peiriannau hapchwarae ar gyfer y safle hwnnw.

13.3 Noda paragraff 18.7 ymhellach fod plant a phobl ifanc yn cael mynd i mewn i safle bingo; fodd bynnag, ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo ac os bydd peiriannau categori B neu gategori C ar gael i'w defnyddio, rhaid i'r rhain gael eu gwahanu oddi wrth ardaloedd y gall plant a phobl ifanc fynd iddynt.

13.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau/amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- Mabwysiadu cynllun prawf oedran megis her 21 neu 25;
- Sut yr ymdrinnir ag unrhyw risgiau i blant a phobl sy'n agored i niwed drwy weithgareddau gamblo wedi cael eu nodi mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn;
- Teledu Cylch Cyfyng;
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau;
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol;
- Lleoliad mynediad;
- Hysbysiadau/arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunanwahardd;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

## 14. Safleoedd betio

14.1 **Peiriannau betio** - Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn ystyried maint y safle, nifer y cownteri sydd ar gael ar gyfer trafodion person i berson, a gallu'r staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 oed fetio) neu gan bobl sy'n agored i niwed, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau peiriannau betio y mae gweithredwr am eu

cynnig. Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos mesurau addas er mwyn sicrhau nad yw plant yn cael mynediad i beiriannau o'r fath.

14.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau/amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- Mabwysiadu cynllun prawf oedran megis her 21 neu 25;
- Sut yr ymdrinnir ag unrhyw risgiau i blant a phobl sy'n agored i niwed drwy weithgareddau gamblo wedi cael eu nodi mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn;
- Teledu Cylch Cyfyng;
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau;
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol;
- Lleoliad mynediad;
- Hysbysiadau/arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunanwahardd;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

14.3 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan rai bwcis nifer o safleoedd o fewn ei ardal. Er mwyn sicrhau y cydnabyddir unrhyw broblemau o ran cydymffurfiaeth ac y cânt eu datrys ar y cam cynharaf, gofynnir i weithredwyr roi pwynt cyswllt unigol a enwir i'r Awdurdod, sef unigolyn hŷn, y bydd yr Awdurdod yn cysylltu ag ef gyntaf os bydd unrhyw ymholiadau neu broblemau ynghylch cydymffurfiaeth yn codi.

## 15. Traciau

15.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol y gall traciau feddu ar fwy nag un drwydded safle, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodol o'r trac. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed rhag cael niwed neu gael eu hecsbloetio drwy weithgareddau gamblo) a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle ar wahân ac y caiff plant eu heithrio o ardaloedd gamblo lle na chânt fynediad iddynt.

15.2 Felly bydd yr awdurdod hwn yn disgwyl i'r ymgeisydd am drwydded safle ddangos bod mesurau addas ar waith er mwyn sicrhau na all plant gael mynediad i gyfleusterau hapchwarae i oedolion yn unig.

15.3 Nodir y gall plant a phobl ifanc gael mynediad i ardaloedd trac lle darperir cyfleusterau ar gyfer betio ar ddiwrnodau pan fydd rasys cŵn a/neu geffylau yn cael eu cynnal, ond y cânt eu hatal o hyd rhag mynd i mewn i ardaloedd lle y darperir peiriannau hapchwarae (heblaw peiriannau categori D).

15.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau/amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- Cynlluniau prawf oedran, megis her 21 neu 25;
- Teledu Cylch Cyfyng;
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau;

- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol;
- Lleoliad mynediad;
- Hysbysiadau/arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunanwahardd;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Nid yw hon yn rhestr orfodol na hollgynhwysfawr, ond yn hytrach yn nodi mesurau enghreifftiol.

15.5 **Peiriannau hapchwarae** - Lle mae gan yr ymgeisydd drwydded gweithredu betio pŵl ac mae'n mynd i ddefnyddio'r hawl i bedwar peiriant hapchwarae, dylai peiriannau (heblaw peiriannau categori D) fod mewn ardaloedd lle y caiff plant eu heithrio.

15.6 **Peiriannau betio** - Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn, yn unol â Rhan 6 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn ystyried maint y safle a gallu staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 oed fetio) neu gan bobl sy'n agored i niwed, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau peiriannau betio y mae gweithredwr am eu cynnig.

15.7 **Amod ar reolau'n cael eu harddangos** - Mae'r Comisiwn Gamblo wedi nodi yn ei Ganllawiau ar gyfer awdurdodau lleol "…licensing authorities should attach a condition to track premises licences requiring the track operator to ensure that the rules are prominently displayed in or near the betting areas, or that other measures are taken to ensure that they are made available to the public.  For example, the rules could be printed in the race-card or made available in leaflet form from the track office."

15.8 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut y byddant yn cydymffurfio â'r canllaw hwn fel rhan o'u cais.

15.9 **Ceisiadau a chynlluniau**
Mae'r Ddeddf Gamblo (a51) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cynlluniau o'r safle gyda'u cais, er mwyn sicrhau bod gan yr Awdurdod Trwyddedu y wybodaeth angenrheidiol i lunio barn hyddysg ynghylch p'un a yw'r safle yn addas ar gyfer gamblo. Caiff y cynllun ei ddefnyddio hefyd er mwyn i'r Awdurdod Trwyddedu gynllunio gweithgarwch arolygu safleoedd yn y dyfodol. (Gweler Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu, para 20.43).

15.10 **Cynlluniau** - Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddarparu cynllun o'r safle ar raddfa o 1:100 oni fydd yr Awdurdod wedi cytuno yn ysgrifenedig i'r ymgeisydd i dderbyn cynllun ar raddfa amgen. Dylai'r cynllun ddangos:

- Ffin gyfan y safle, a'r holl adeiladau a strwythurau o fewn y safle.
- Lleoliad y pwyntiau cyrraedd a gadael ar y safle.
- Yr ardaloedd i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau gamblo boed yn barhaol neu dros dro.
- Unrhyw ardaloedd lle y cyfyngir ar fynediad i blant/gwaherddir mynediad i blant.
- Lleoliad unrhyw hysbysiadau rhybudd neu wybodaeth.
- Lleoliad unrhyw doiledau cyhoeddus.
- Lleoliad unrhyw ardaloedd gamblo ar y safle a gwmpesir gan drwyddedau ar wahân.
- Gall y cynllun gynnwys esboniad lle y gellir nodi'r materion uchod.

15.11 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn o'r farn y byddai'n well i bob safle hunangynhwysol a weithredir gan weithredwyr betio oddi ar y cwrs ar y trac i gael trwyddedau safleoedd ar wahân, er mwyn sicrhau bod eglurder rhwng priod gyfrifoldebau'r gweithredwr traciau a'r gweithredwr betio oddi ar y cwrs sy'n rhedeg uned hunangynhwysol ar y safle.

15.12 Mae'r awdurdod hwn yn gwerthfawrogi ei bod yn anodd weithiau diffinio union leoliad ardaloedd betio ar draciau. Nid oes angen dangos union leoliad cyfleusterau betio ar gynlluniau trac, am fod betio yn cael ei ganiatáu unrhyw le ar y safle ac oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â nodi union leoliadau ar gyfer rhai mathau o drac. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth fel y gall yr awdurdod hwn fodloni ei hun bod y cynllun yn nodi'r prif ardaloedd lle y gallai betio ddigwydd. Ar gyfer cyrsiau rasio yn enwedig, rhaid i unrhyw ardaloedd betio sy'n gorfod dilyn y "rheol pum gwaith" (a elwir fel arfer yn gylchoedd betio) gael eu dangos ar y cynllun. (Gweler Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu, para 20.46).

## 16. Ffeiriau Teithiol

16.1 Yr Awdurdod Trwyddedu hwn fydd yn penderfynu, lle bydd peiriannau categori D a/neu hapchwarae gwobrau cyfle cyfwerth heb drwydded ar gael i'w defnyddio mewn ffeiriau teithiol, a yw'r gofyniad statudol nad yw'r cyfleusterau ar gyfer gamblo yn fwy na pheiriannau chwarae atodol yn y ffair yn cael ei fodloni.

16.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried a yw'r ymgeisydd yn dod o fewn y diffiniad statudol o ffair deithiol.

16.3 Nodwyd bod yr uchafswm statudol o 27 diwrnod ar gyfer defnyddio'r tir ar gyfer ffair, fesul blwyddyn galendr, a'i fod yn gymwys i'r darn o dir y cynhelir y ffeiriau arno, ni waeth ai'r un ffeiriau teithiol sydd ar y tir neu rai gwahanol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn gweithio gyda'i awdurdodau cyfagos i sicrhau bod tir sy'n croesi ein ffiniau yn cael ei fonitro fel nad eir y tu hwnt i'r terfynau statudol.

## 17. Datganiadau Dros Dro

17.1 Efallai y bydd datblygwyr am wneud cais i'r awdurdod hwn am ddatganiadau dros dro cyn llunio contract i brynu neu brydlesu eiddo neu dir er mwyn barnu a yw'n werth bwrw ymlaen â datblygiad o gofio'r angen i gael trwydded safle. Nid oes angen i'r ymgeisydd gael trwydded weithredu er mwyn gwneud cais am ddatganiad dros dro.

17.2 Mae A.204 o'r Ddeddf Gamblo yn caniatáu i berson wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am ddatganiad dros dro mewn perthynas â safle y mae'n:

- disgwyl iddo gael ei adeiladu;
- disgwyl iddo gael ei addasu; neu'n
- disgwyl caffael hawl i'w feddiannu.

17.3 Mae'r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad dros dro yr un peth â'r broses ar gyfer gwneud cais am drwydded safle. Rhaid i'r ymgeisydd roi gwybod am y cais yn yr un ffordd ag y gwneir cais am drwydded safle. Gall awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb wneud sylwadau ac mae hawl i apelio.

17.4 Yn groes i'r cais am drwydded safle, nid oes rhaid i'r ymgeisydd gael na dal na bod wedi gwneud cais am drwydded weithredu oddi wrth y Comisiwn Gamblo ac nid oes ganddo hawl i feddiannu'r safle y gwneir y cais dros dro mewn perthynas ag ef.

17.5 Yna gall daliwr datganiad dros dro wneud cais am drwydded safle unwaith y bydd y safle wedi ei adeiladu, ei addasu neu ei gaffael. Caiff yr Awdurdod Trwyddedu ei gyfyngu o ran y materion y gall eu hystyried wrth benderfynu ar gais am drwydded safle, ac o ran sylwadau am geisiadau am drwydded safle sy'n dilyn rhoi datganiad dros dro, ni ellir ystyried unrhyw sylwadau pellach gan awdurdodau perthnasol na phartïon â diddordeb oni bai eu bod:

- yn ymwneud â materion na ellid bod wedi mynd i'r afael â hwy ar y cam datganiad dros dro, neu
- yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ymgeisydd.

17.6 Yn ogystal, gall yr awdurdod wrthod y drwydded safle (neu ei roi ar delerau sy'n wahanol i'r rhai a atodir i'r datganiad dros dro) dim ond drwy gyfeirio at faterion:

- na ellid bod wedi eu codi gan wrthwynebwyr ar y cam datganiad dros dro;
- sydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr; neu
- lle na chafodd y safle ei adeiladu yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais. Rhaid i hyn fod yn newid sylweddol i'r cynllun ac mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo gyda'r ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad.

## 18. Adolygiadau

18.1 Gall partïon â diddordeb neu awdurdodau cyfrifol wneud ceisiadau am adolygiad o drwydded safle; fodd bynnag, yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn penderfynu a gaiff yr adolygiad ei gynnal. Bydd hyn yn dibynnu ar b'un a yw'r cais am yr adolygiad yn berthnasol i'r materion a restrir isod;

- yn unol ag unol ag unrhyw God Ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu; ac
- yn unol â datganiad o egwyddorion yr awdurdod.

18.2 Bydd y cais am yr adolygiad hefyd yn destun ystyriaeth gan yr awdurdod ynghylch p'un a yw'r cais yn ddisylwedd, yn flinderus, neu'n sicr yn un na fydd yn peri i'r awdurdod hwn fod ag awydd i addasu/diddymu/atal y drwydded, neu a yw, yn y bôn, yr un peth â sylwadau blaenorol neu geisiadau blaenorol am adolygiad.

18.3 Gall yr Awdurdod Trwyddedu hefyd gychwyn adolygiad o drwydded safle benodol, neu ddosbarth penodol o drwydded safle ar sail unrhyw reswm sy'n briodol yn ei farn ef.

18.4 Pan fydd cais dilys am adolygiad wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu, gall awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb wneud sylwadau yn ystod cyfnod o 28 diwrnod. Bydd y cyfnod hwn yn dechrau 7 diwrnod ar ôl i'r cais gael ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu, a fydd yn cyhoeddi hysbysiad o'r cais o fewn 7 diwrnod i'w dderbyn.

18.5 Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gynnal yr adolygiad cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwneud sylwadau ddod i ben.

18.6 Diben yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r Awdurdod Trwyddedu gymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r drwydded. Os cyfiawnheir cam gweithredu, yr opsiynau sydd ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu yw:-

(a) ychwanegu, dileu neu ddiwygio amod trwydded a bennwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu;
(b) eithrio amod rhagosodedig a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu ddileu neu ddiwygio eithriad o'r fath;
(c) atal y drwydded safle am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis; a
(d) diddymu'r drwydded safle.

18.7 Wrth benderfynu pa gamau gweithredu, os o gwbl, y dylid eu cymryd yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr egwyddorion a nodir yn adran 153 o'r Ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.

18.8 Yn arbennig, gall yr Awdurdod Trwyddedu hefyd gychwyn adolygiad o drwydded safle am y rheswm nad yw deiliad trwydded safle wedi darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo ar y safle. Mae hyn er mwyn atal pobl rhag gwneud cais am drwyddedau mewn ffordd dybiannol heb fwriadu eu defnyddio.

18.9 Pan fydd yr adolygiad wedi ei gwblhau, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, cyn gynted â phosibl, hysbysu'r canlynol am ei benderfyniad:

- deiliad y drwydded
- yr ymgeisydd am adolygiad (os o gwbl)
- y Comisiwn
- unrhyw berson a wnaeth sylwadau
- prif swyddog yr heddlu neu brif gwnstabl; a
- Comisiynwyr Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi

## 19. Asesiadau Risg

19.1 Mae asesiadau risg o'r fath yn ofynnol gan ymgeiswyr newydd, a chan drwyddedeion safleoedd presennol sydd am amrywio trwydded. Mae'r Amodau Trwydded a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo (Y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithredwr: Canolfannau Hapchwarae i Oedolion (AGC's), Safleoedd Bingo, Canolfannau Adloniant i'r Teulu (FEC's), Siopau betio a chyfryngwyr betio o bell asesu risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu, a chael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

19.2 Yn ôl y cod, mae'n ofynnol i weithredwyr o 6 Ebrill 2016 sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais naill ai am drwydded safle newydd neu amrywiad ar drwydded safle, neu fel arall ar gais, a bydd hyn yn rhan o system arolygu'r Awdurdod a gellir gofyn am hyn pan fydd swyddogion yn ymchwilio i gwynion.

19.3 Cynghorir gweithredwyr yn gryf i sicrhau bod copi o asesiad risg y safle cyfredol yn cael ei gadw ar y safle ochr yn ochr â dogfen y drwydded safle a'u bod ar gael i'r staff.

19.4 Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod nodi materion y mae'n disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi ac mae'r Awdurdod

hwn yn disgwyl i'r materion canlynol gael eu hystyried gan weithredwyr wrth wneud eu hasesiad risg.

- Gwybodaeth a ddelir gan y trwyddedai ynghylch hunanwaharddiadau a digwyddiadau'n ymwneud â gamblo dan oed.
- Tueddiadau hapchwarae a all adlewyrchu diwrnodau talu budd-daliadau a thalu cyflog.
- Trefnu i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunanwaharddiadau a thueddiadau hapchwarae.
- Lleoliad trefol megis agosrwydd at ysgolion, amgylchedd masnachol, ffactorau sy'n effeithio ar nifer y cwsmeriaid.
- Ystod o gyfleusterau yn agos at y safle trwyddedig megis mannau gamblo eraill, banciau, swyddfeydd post, cyfleusterau bwyd a diod ac adloniant.
- Problemau hysbys yn yr ardal megis problemau yn deillio o yfwyr ar y stryd, pobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, gweithgareddau gwerthu cyffuriau ac ati.

19.5 Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'r materion canlynol gael eu hystyried gan Weithredwyr wrth wneud eu hasesiad risg.

Materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys;

- Sefydliadau, llefydd neu ardaloedd lle mae rhywun yn disgwyl gweld plant a phobl ifanc, megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, meysydd chwarae a lleoliadau adloniant megis aleau bowlio, sinemâu ac ati.
- Unrhyw safle lle mae plant yn ymgynnull, gan gynnwys arosfannau bysiau, caffis, siopau ac unrhyw le arall sy'n denu plant.
- Ardaloedd sy'n dueddol o weld pobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau fel graffiti/tagio, yfed dan oed ac ati.
- Digwyddiadau a gofnodwyd o blant dan oed yn ceisio gamblo.

19.6 Materion yn ymwneud ag oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys;

- Gwybodaeth a ddelir gan y trwyddedai ynghylch hunanwaharddiadau a digwyddiadau'n ymwneud â gamblo dan oed.
- Tueddiadau hapchwarae a all adlewyrchu diwrnodau ar gyfer taliadau ariannol megis diwrnodau talu cyflog neu fudd-daliadau.
- Trefnu i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunanwaharddiadau a thueddiadau hapchwarae.
- Agosrwydd safleoedd y gall pobl sy'n agored i niwed fynd iddynt, megis ysbytai, cartrefi gofal preswyl, mannau addoli, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau caethiwed neu ganolfannau cymorth, llefydd lle y gall pobl sy'n dibynnu ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull ac ati.

19.7 Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a rhaid ystyried ffactorau perthnasol eraill nad ydynt ar y rhestr hon ond a nodwyd.

# RHAN C
# Trwyddedau/Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol

## 20. Trwyddedau Peiriannau Hapchwarae Canolfannau Adloniant i'r Teulu Heb drwydded (Datganiad o Egwyddorion ar Drwyddedau - Atodlen 10 paragraff 7).

20.1 Pan na fydd gan safle drwydded safle ond ei fod yn dymuno darparu peiriannau hapchwarae, gall wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am y drwydded hon. Dylid nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos y caiff y safle ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu peiriannau hapchwarae i'w defnyddio (Adran 238 o'r Ddeddf).

20.2 Dim ond os bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon y caiff y safle ei ddefnyddio fel FEC heb drwydded, ac yr ymgynghorwyd â Phrif Swyddog yr Heddlu, y gall cais am drwydded gael ei roi. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr:

- Ddangos dealltwriaeth lawn o uchafswm yr arian betio a gwobrau gamblo a ganiateir mewn FECs heb drwydded;
- Dangos nad oes gan yr ymgeisydd euogfarnau perthnasol (y rhai a nodir yn Atodlen 7 i'r Ddeddf; a
- Dangos bod y staff wedi eu hyfforddi i feddu ar ddealltwriaeth lawn o'r arian betio a'r gwobrau mwyaf.
- Dangos dealltwriaeth o faterion diogelu a nodwyd ar dudalen 15 o'r polisi hwn.
- Darparu gwiriad cofnodion troseddol sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu allbrint Mynediad at Ddata gan y Testun o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu wedi ei ddyddio o fewn un mis calendr i ddyddiad cyflwyno'r cais (oni fydd yr ymgeisydd yn dal trwydded gyfredol Gweithredwr a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo).
- Darparu cynlluniau o'r safle sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff 15.9 - 15.10 o'r polisi hwn ac sy'n dangos lleoliadau arfaethedig peiriannau hapchwarae a lleoliadau staff sy'n rheoli ac yn goruchwylio'r ganolfan.

20.3 Wrth ystyried unrhyw euogfarnau a ddatgelwyd mewn cais bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried natur a pherthnasedd y drosedd, pa mor bell yn ôl y digwyddodd ac unrhyw ffactorau eraill a all fod yn berthnasol. Bydd y cais yn ddarostyngedig i delerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr ac efallai na chyfeirir at euogfarnau wedi'u disbyddu wrth ystyried y cais am drwydded. Bydd y broses gwneud cais yn cyfeirio'n benodol at y Troseddau Perthnasol a restrir yn Atodlen 7 i Ddeddf Gamblo 2005.

20.4 Dylid nodi na all Awdurdod Trwyddedu atodi amodau i'r math hwn o drwydded.

20.5 **Datganiad o Egwyddorion** - Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu plant rhag niwed. Nid yw niwed yn y cyd-destun hwn yn gyfyngedig i niwed o ganlyniad i gamblo. Mae'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach.

20.6 Ystyrir effeithlonrwydd polisïau a gweithdrefnau o'r fath ar eu teilyngdod, fodd bynnag, gallant gynnwys mesurau/hyfforddiant priodol i staff ynghylch plant ysgol yr amheuir eu bod yn triwanta yn mynd ar y safle, mesurau priodol/fetio staff/hyfforddiant yn ymdrin â'r modd y byddai staff yn delio â phlant ifanc iawn heb oruchwyliaeth yn mynd ar y safle, neu blant yn achosi problemau canfyddedig ar/o amgylch y safle. Yn unol â Chanllawiau'r Awdurdod Trwyddedu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o uchafswm yr arian betio a gwobrau gamblo a ganiateir mewn FECs heb drwydded; nad oes gan yr ymgeisydd

euogfarnau perthnasol (y rhai a nodir yn Atodlen 7 i'r Ddeddf; a bod y staff wedi eu hyfforddi i feddu ar ddealltwriaeth lawn o uchafswm yr arian betio a gwobrau.

20.7 Cynghorir ymgeiswyr i gyfeirio at y cyngor ar Ddiogelu a amlinellir ar dudalen 15 o'r Polisi hwn neu i gysylltu â'r Awdurdodau Cyfrifol perthnasol am arweiniad pellach.

## 21. Trwyddedau ar gyfer peiriannau hapchwarae ar safleoedd trwyddedig (Alcohol)

**Peiriannau Hapchwarae - Hawl Awtomatig**

21.1 Mae darpariaeth yn y Ddeddf i safleoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, gael dau beiriant hapchwarae o gategorïau C a/neu D yn awtomatig. Y cyfan sydd angen i'r safle ei wneud yw hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a thalu'r ffi ragosodedig.

21.2 Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddileu'r awdurdodiad awtomatig mewn perthynas ag unrhyw safle penodol:

- os nad yw'r modd y darperir y peiriannau yn rhesymol gyson â chyflawni'r amcanion trwyddedu;
- os yw hapchwarae wedi digwydd ar y safle sy'n torri amod 282 o'r Ddeddf Gamblo (h.y. bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei roi i'r Awdurdod Trwyddedu, bod ffi wedi ei darparu ac y cydymffurfiwyd ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo am leoliad a gweithrediad y peiriant);
- os defnyddir y safle'n bennaf ar gyfer gamblo; neu
- os cyflawnwyd trosedd ar y safle o dan y Ddeddf Gamblo.

21.3 **Trwydded Peiriant Hapchwarae: Tri neu fwy o beiriannau - (atodlen 13 paragraff 4(1))**

Os bydd safle'n dymuno cael mwy na dau beiriant, bydd angen iddo wneud cais am drwydded a rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried y cais hwnnw yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o dan Ddeddf 2005, unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo a gyhoeddwyd o dan Adran 25 o Ddeddf Gamblo 2005, a "such matters as they think relevant".

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried y penderfynir ar "such matters" fesul achos ond yn gyffredinol y bydd angen ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl sy'n agored i niwed rhag niwed neu rhag cael niwed neu gael eu hecsbloetio drwy weithgareddau gamblo a bydd disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol ar waith er mwyn sicrhau na all pobl o dan 18 oed gael mynediad i'r peiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. Gall mesurau a fydd yn bodloni'r awdurdod na fydd unrhyw fynediad i bobl dan oed yn cynnwys sicrhau bod y peiriannau i oedolion o fewn golwg y bar, neu o fewn golwg y staff a fydd yn sicrhau nad yw'r peiriannau'n cael eu defnyddio gan bobl o dan 18 oed. Gall hysbysiadau ac arwyddion helpu hefyd. O ran diogelu pobl sy'n agored i niwed, efallai y bydd ymgeiswyr am ystyried darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Felly mae'n ofynnol i ymgeiswyr am Drwyddedau Peiriannau Hapchwarae ar safleoedd trwyddedig ddarparu'r wybodaeth ganlynol ochr yn ochr â'u cais:-

1. Cynllun o'r safle yn unol â pharagraff 15.10 o'r polisi hwn lle y gallant ddangos lleoliad arfaethedig pob peiriant hapchwarae ochr yn ochr â manylion lleoliad staff goruchwylio yn ogystal â Hysbysiadau ac arwyddion.

2. Gwybodaeth ynghylch natur y safle gan gynnwys mynediad i'r safle gan bobl o dan 18 oed.
3. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos y bydd y gweithgarwch gamblo a gynigir ar y safle yn achlysurol / atodol i'r gweithgareddau trwyddedadwy eraill ar y safle.

21.4 Cydnabyddir y gall rhai safleoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol wneud cais am drwydded safle ar gyfer eu hardaloedd lle nad oes trwydded i werthu alcohol. Hwyrach y byddai angen gwneud cais am gais o'r fath a'i drin fel trwydded safle Canolfan Hapchwarae i Oedolion.

21.5 Dylid nodi y gall yr Awdurdod Trwyddedu benderfynu derbyn y cais ond gyda nifer lai o beiriannau a/neu gategori gwahanol o beiriannau i'r hyn y gwnaed cais amdano. Amodau (heblaw'r rhain) na ellir eu hatodi.

21.6 Dylid nodi hefyd bod yn rhaid i ddeiliad trwydded gydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo am leoliad a gweithrediad y peiriant.

21.7 Gall yr Awdurdod Lleol ymgynghori â'r Heddlu cyn penderfynu ar geisiadau o'r fath.

## 22. Trwyddedau Hapchwarae am Wobrau - (Datganiad o Egwyddorion ar Drwyddedau - Atodlen 14 paragraff 8 (3))

22.1 Mae Deddf Gamblo 2005 yn nodi y gall Awdurdod Trwyddedu “prepare a statement of principles that they propose to apply in exercising their functions under this Schedule” which “may, in particular, specify matters that the Licensing Authority propose to consider in determining the suitability of the applicant for a permit”.

22.2 **Datganiad o Egwyddorion** - Dylai ymgeiswyr nodi'r mathau o hapchwarae y mae'n bwriadu eu cynnig a dylai'r ymgeisydd fod yn gallu dangos:

- eu bod yn deall y terfynau arian betio a gwobrau a nodir yn y Rheoliadau;
- a bod yr hapchwarae a gynigir o fewn y gyfraith.
- polisïau clir sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i ddiogelu plant rhag niwed.

22.3 Wrth wneud ei benderfyniad ar gais am y drwydded hon nid oed rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu roi ystyriaeth i'r amcanion trwyddedu ond rhaid iddo ystyried unrhyw ganllawiau gan y Comisiwn Gamblo (Deddf Gamblo 2005, Atodlen 14 paragraff 8(3)).

22.4 Dylid nodi bod amodau yn Neddf Gamblo 2005 y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded gydymffurfio â hwy, ond na all yr Awdurdod Trwyddedu atodi amodau. Yr amodau yn y Ddeddf yw:

- rhaid cydymffurfio â'r terfynau ar ffioedd cymryd rhan, fel y'u nodir yn y rheoliadau;
- rhaid i bob cyfle i gymryd rhan yn yr hapchwarae gael ei bennu i'r safle lle y bwriedir cynnal yr hapchwarae ac ar un diwrnod; rhaid i'r gêm gael ei chwarae a'i chwblhau ar y diwrnod y pennir y cyfleoedd; a rhaid i ganlyniad y gêm gael ei gyhoeddi ar y safle ar y diwrnod y caiff ei chwarae;
- ni ddylai'r wobr am y gêm a chwaraeir fod yn fwy na'r swm a nodir yn y rheoliadau (os yw'n wobr ariannol), nac yn fwy na'r gwerth rhagosodedig (os yw'n wobr anariannol); ac
- ni ddylai cymryd rhan yn yr hapchwarae roi'r hawl i'r chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw fath arall o weithgaredd gamblo.

## 23. Trwyddedau ar gyfer Hapchwarae mewn Clybiau a Pheiriannau mewn Clybiau

23.1 Gall Clybiau Aelodau a Sefydliadau lles glowyr (ond nid Clybiau Masnachol) wneud cais am Drwydded ar gyfer Hapchwarae mewn Clybiau. Bydd y Drwydded ar gyfer Hapchwarae mewn Clybiau yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (3 pheiriant o gategori B, C neu D), hapchwarae cyfle cyfwerth a gemau cyfle fel y'u nodir yn y rheoliadau sydd ar droed.

Gall Clybiau Aelodau a Sefydliadau lles glowyr - a Chlybiau Masnachol hefyd - wneud cais am Drwydded ar gyfer Peiriant mewn Clwb. Bydd Trwydded ar gyfer Peiriant mewn Clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (3 pheiriant o gategori B, C neu D). DS Ni all Clybiau Masnachol osod peiriannau hapchwarae categori BRA sy'n cynnig gemau loteri yn eu clwb.

23.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn nodi bod Canllawiau'r Comisiwn Gamblo yn datgan:

25.44 Mae'n rhaid i'r ALl fodloni ei hun bod y clwb yn bodloni gofynion y Ddeddf i gynnig trwydded hapchwarae mewn clybiau. Wrth wneud hynny, bydd yn ystyried nifer o faterion fel y rhai a amlinellir yn adrannau 25.45.25.47 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo. Mae'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad y clwb, amlder yr hapchwarae, a sicrhau bod mwy na 25 o aelodau.

Rhaid i'r clwb gael ei gynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion heblaw am hapchwarae, oni fydd y rheoliadau ar wahân yn caniatáu hynny. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau ac mae'r rhain yn cwmpasu clybiau *bridge* a chwist.

23.3 Noda Canllawiau'r Comisiwn hefyd "licensing authorities may only refuse an application on the grounds that:

(a) the applicant does not fulfil the requirements for a members' or commercial club or miners' welfare institute and therefore is not entitled to receive the type of permit for which it has applied;
(b) the applicant's premises are used wholly or mainly by children and/or young persons;
(c) an offence under the Act or a breach of a permit has been committed by the applicant while providing gaming facilities;
(d) a permit held by the applicant has been cancelled in the previous ten years; or
(e) an objection has been lodged by the Commission or the police".

23.4 Mae gweithdrefn llwybr carlam hefyd ar gael o dan y Ddeddf ar gyfer safleoedd sydd â Thystysgrif Safleoedd Clybiau o dan Ddeddf Drwyddedu 2003 (Atodlen 12 paragraff 10). Fel y noda Canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol: "Under the fast-track procedure there is no opportunity for objections to be made by the Commission or the police, and the grounds upon which an authority can refuse a permit are reduced". Mae'r rhesymau dros wrthod cais o dan y broses fel a ganlyn:

(a) bod y clwb wedi ei sefydlu'n bennaf ar gyfer hapchwarae, heblaw'r hapchwarae a ragnodir o dan atodlen 12;
(b) bod yr ymgeisydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer mathau eraill o hapchwarae, yn ogystal â'r hapchwarae rhagosodedig; neu

(c) bod trwydded hapchwarae mewn clybiau neu drwydded peiriannau mewn clybiau a roddwyd i'r ymgeisydd yn y deng mlynedd diwethaf wedi ei chanslo.

23.5 Mae amodau statudol ar drwyddedau hapchwarae mewn clybiau sef na ddylai unrhyw blentyn ddefnyddio peiriant categori B na chategori C ar y safle a bod y deiliad yn cydymffurfio â darpariaeth berthnasol cod ymarfer ynghylch lleoliad a gweithrediad peiriannau hapchwarae.

23.6 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau/amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- Mabwysiadu cynllun prawf oedran megis her 21 neu 25;
- Sut yr ymdrinnir ag unrhyw risgiau i blant a phobl sy'n agored i niwed drwy weithgareddau gamblo;
- Teledu Cylch Cyfyng;
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau;
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol;
- Lleoliad mynediad;
- Hysbysiadau/arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunanwahardd;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

## 24. Hysbysiadau Defnydd Dros Dro

24.1 Mae Hysbysiadau Defnydd Dros Dro yn caniatáu'r defnydd o safleoedd ar gyfer gamblo os nad oes trwydded safleoedd ar gael ond bod y gweithredwr gamblo am ddefnyddio'r safle dros dro i ddarparu cyfleusterau ar gyfer gamblo. Byddai safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer Hysbysiad Defnydd Dros Dro, yn ôl y Comisiwn Gamblo, yn cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.

24.2 Dim ond Hysbysiad Defnydd Dros Dro i berson neu gwmni sydd â thrwydded weithredu berthnasol y gall yr Awdurdod Trwyddedu ei roi, h.y. trwydded weithredu ar gyfer casino nad yw'n gasino o bell.

24.3 Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i benderfynu pa fath o gamblo y gellir ei awdurdodi drwy Hysbysiadau Defnydd Dros Dro, ac ar adeg ysgrifennu'r Datganiad hwn noda'r rheoliadau perthnasol (OS rhif 3157: Rheoliadau 2007 Deddf Gamblo 2005 (Hysbysiadau Defnydd Dros Dro) mai dim ond er mwyn caniatáu darparu cyfleusterau neu hapchwarae cyfle cyfwerth, lle y bwriedir i'r hapchwarae gynhyrchu un enillydd, sydd yn ymarferol yn golygu twrnameintiau pocer, y gellir defnyddio Hysbysiadau Defnydd Dros Dro.

24.4 Mae nifer o derfynau statudol o ran Hysbysiadau Defnydd Dros Dro. Mae ystyr "premises" yn Rhan 8 o'r Ddeddf yn cael ei drafod yn Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu. Fel gyda "premises", bydd y diffiniad o "a set of premises" yn gwestiwn o ffaith yn amgylchiadau penodol pob hysbysiad a roddir. Yn y Ddeddf diffinnir "premises" fel man sy'n cynnwys "any place". Wrth ystyried a yw man yn dod o fewn diffiniad "a set of premises", bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried, ymhlith pethau eraill, berchenogaeth/meddiannaeth a rheolaeth o'r safle.

24.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl gwrthwynebu i hysbysiadau lle mae'n ymddangos y byddai eu heffaith yn caniatáu gamblo rheolaidd mewn man a allai gael ei ddisgrifio fel un set o safleoedd, fel yr argymhellir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu.

## 25. Hysbysiadau Defnydd Achlysurol

25.1 Prin iawn yw'r disgresiwn sydd gan yr Awdurdod Trwyddedu o ran yr hysbysiadau hyn ar wahân i sicrhau nad eir y tu hwnt i'r terfyn statudol o 8 diwrnod mewn blwyddyn galendr. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried y diffiniad o 'trac' a ph'un a ganiateir i'r ymgeisydd fanteisio ar yr hysbysiad. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn sicrhau na chyhoeddir mwy nag 8 Hysbysiad Defnydd Achlysurol mewn un flwyddyn galendr mewn perthynas ag unrhyw leoliad.

## 26. Loterïau Cymdeithasau Bach

26.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn mabwysiadu dull seiliedig ar risgiau o ran ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loterïau cymdeithasau bach. Mae'r awdurdod hwn yn ystyried y gallai'r rhestr ganlynol, er nad yw'n gyfyngol, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- Cyflwyno datganiadau'n hwyr (rhaid cyflwyno datganiadau o fewn tri mis i'r dyddiad y tynnwyd y loteri)
- Cyflwyno datganiadau anghyflawn neu anghywir
- Torri'r terfynau ar gyfer loterïau cymdeithasau bach

26.2 Caniateir hapchwarae anfasnachol os caiff ei gynnal mewn digwyddiad anfasnachol, naill ai fel gweithgarwch achlysurol neu fel prif weithgarwch yn y digwyddiad. Mae'r digwyddiadau'n rhai anfasnachol os nad oes dim o'r enillion ar gyfer elw neu ennill preifat. Gall un neu fwy o unigolion elwa ar enillion digwyddiadau o'r fath os yw'r gweithgarwch wedi ei drefnu:

- gan neu ar ran, elusen neu at ddibenion elusennol
- er mwyn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, athletaidd neu ddiwylliannol, neu er mwyn cefnogi gweithgareddau o'r fath

Dylai elusennau a grwpiau cymunedol gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu hwn am ragor o gyngor.

**DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU**

| **Mater i'w drin** | **Cyngor Llawn / Cabinet** | **Is-bwyllgor** | **Swyddogion** |
|---|---|---|---|
| Cymeradwyaeth derfynol y polisi Trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Pennu ffioedd (pan fo'n briodol) | X | | |
| Cais am drwyddedau safleoedd | | Lle y cafwyd sylwadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl | Lle na chafwyd sylwadau a thynnwyd sylwadau yn ôl |
| Cais am amrywiad i drwydded | | Lle y cafwyd sylwadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl | Lle na chafwyd sylwadau a thynnwyd sylwadau yn ôl |
| Cais i drosglwyddo trwydded | | Lle y derbyniwyd sylwadau gan y Comisiwn | Lle na dderbyniwyd sylwadau gan y Comisiwn |
| Cais am ddatganiad dros dro | | Lle y cafwyd sylwadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl | Lle na chafwyd sylwadau a thynnwyd sylwadau yn ôl |
| Cais i adolygu safle /trwydded clwb | | X | |
| Cais am drwydded hapchwarae mewn clybiau/ peiriannau mewn clybiau | | Lle y gwnaed gwrthwynebiadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl | Lle na wnaed gwrthwynebiadau neu lle y tynnwyd gwrthwynebiadau yn ôl |
| Canslo trwyddedau hapchwarae mewn clybiau/ peiriannau mewn clybiau | | X | |
| Ceisiadau am drwyddedau eraill | | Lle y gwnaed gwrthwynebiadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl | Lle na wnaed gwrthwynebiadau neu lle y tynnwyd gwrthwynebiadau yn ôl |
| Canslo trwyddedau ar gyfer peiriannau hapchwarae ar safleoedd trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiad defnydd dros dro | | | X |
| Penderfynu rhoi gwrth-hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |
| Penderfynu a yw sylw yn amherthnasol, yn | | | X |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ddisylwedd neu'n flinderus | | | |

X – yn nodi beth yw'r lefel isaf y gellir dirprwyo penderfyniadau iddi.

**Manylion Cyswllt**

**Awdurdod Trwyddedu**

**Adran Drwyddedu**
Is-adran Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP
Ffôn: 01437 764551
E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk
Gwefan: www.pembrokeshire.gov.uk

**Y Comisiwn Gamblo**
Victoria Square House
Victoria Square
Birmingham
B2 4BP
Rhif Ffôn 0121 230 6666
e-bost: info@gamblingcommission.gov.uk

**Department for Digital, Culture, Media and Sport**
100 Parliament Street
London
SW1A 2BQ
London
Rhif Ffôn 020 7211 6000
e-bost: enquiries@culture.gov.uk

**HMRC**
HM Revenue and Customs
Excise Processing Teams
BX9 1GL
United Kingdom
Rhif Ffôn 0300 3227072 opsiwn 7
e-mail nrubetting&gaming@hmrc.gsi.gov.uk

**Yr Awdurdod Cynllunio Perthnasol**

**Naill ai**

Pennaeth Cynllunio
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP
Rhif Ffôn 01437 764551
e-mail: enquiries@pembrokeshire.gov.uk

**Neu**

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ar gyfer safleoedd o fewn ei ardal weinyddol
Swyddog Rheoli Datblygu
Parciau Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY
Rhif ffôn: 01646 624800
e-bost: info@pembrokeshirecoast.org.uk


**Is-adran Diogelu'r Cyhoedd**
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP
Rhif Ffôn. 01437 764551
e-mail: enquiries@pembrokeshire.gov.uk


**Heddlu Dyfed Powys**
Swyddog Trwyddedu
Pencadlys Ranbarthol yr Heddlu
Bryn Myrddin
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1PT
Rhif Ffôn 101


**Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**
Rheolwr Diogelwch Tân Busnes
Pencadlys Gorchymyn
Bryn Myrddin
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1PG
Rhif Ffôn  0370 6060699
e-bost : bfspembroke@mawwfire.gov.uk


**Y Cydgysylltydd Amddiffyn Plant**
Rheolwr Diogelu
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP
Rhif Ffôn 01437 764551
e-mail: enquiries@pembrokeshire.gov.uk


Dylai ymgeiswyr ar gyfer trwyddedau mewn perthynas â llongau gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer gwybodaeth ychwanegol.



Fishguard & Goodwick
Goodwick
Fishguard North East
Fishguard North West
FISHGUARD
ABERGWAUN


Haverfordwest
Haverfordwest: Garth
Haverfordwest: Prendergast
Haverfordwest: Castle
Haverfordwest: Portfield
Haverfordwest: Priory


St Dogmael's
Cilgerran
Newport
Crymych
Clydau
Scleddau
Llanrhian
Dinas Cross
St David's
Solva
Letterston
Maenclochog
Wiston
Rudbaxton
Camrose
PEMBROKESHIRE COAST NATIONAL PARK
S T   B R I D E S
B A Y
Narberth Urban
Lampeter Velfrey
Merlin's Bridge
Martletwy
The Havens
Llangwm
Narberth Rural
Johnston
St Ishmael's
Amroth
Kilgetty / Begelly
Burton
East Williamston
Lamphey
Carew
Penally
Manorbier
Hundleton


Saundersfoot
Tenby: North
Tenby: South
Tenby & Saundersfoot


Neyland: West
Neyland: East
NEYLAND
Pembroke Dock: Llanion
Pembroke Dock: Market
Pembroke Dock: Central
DOC PENFRO
Pembroke Dock: Pennar
Pembroke: St Mary North
Pembroke: Monkton
PEMBROKE
PENFRO
Pembroke: St Mary South
Pembroke: St Michael
Pembroke & Pembroke Dock


Milford: North
Neyland: West
Milford: Hubberston
Milford: West
Milford: Hakin
Milford: Central
Milford: East
Neyland: East
MILFORD HAVEN / ABERDAUGLEDDAU
Pembroke Dock: Llanion
Pembroke Dock: Market
Pembroke Dock: Central
Milford Haven & Neyland